Rhaglen yr Wrthblaid
Plaid Cymru
2016-2021

Plaid Cymru
Party of Wales

Cynnwys

Rhaglen yr Wrthblaid Plaid Cymru	**3**
Rhaglen yr Wrthblaid: Y Cyd-destun Cenedlaethol	**4**
Rhaglen yr Wrthblaid: Meysydd Polisi	**6**
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	**6**
Addysg	**8**
Economi a Chyllid	**11**
Trafnidiaeth	**13**
Llywodraeth Leol, Llywodraethiant a'r Cyfansoddiad	**14**
Tai	**16**
Ynni a'r Amgylchedd	**17**
Amaethyddiaeth	**19**
Treftadaeth, Diwylliant & Chwaraeon	**20**
Yr Iaith Gymraeg	**22**
Yr Undeb Ewropeaidd a Chysylltiadau Rhyngwladol	**23**

Rhaglen yr Wrthblaid Plaid Cymru 2016-2021

Rhaglen yr Wrthblaid

RHAGLEN YR WRTHBLAID: CYFLWYNIAD

Ar Fai 5ed eleni, etholodd pobl Cymru aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol am eu pumed tymor. Ni chafodd yr un blaid fwyafrif clir, a chafwyd pleidlais glwm rhwng arweinyddion y ddwy blaid fwyaf ynghylch pwy ddylai ddod yn Brif Weinidog.

Ar Fai 18fed cyhoeddodd Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol Gompact gyda'r Grŵp Llafur er mwyn hwyluso ffurfio Llywodraeth leiafrifol dan arweiniad y blaid Lafur. Yr oedd y cytundeb unwaith-ac-am-byth hwn yn ymestyn dros 100 diwrnod cyntaf y weinyddiaeth newydd, ac fe'i hatgynhyrchir fel atodiad i'r ddogfen hon.

Pan gyhoeddwyd y Compact, fe wnaethom ni ymrwymo i fod yn 'wir wrthblaid' i'r llywodraeth Lafur leiafrifol. Mae bod yn wir wrthblaid yn golygu dal Llywodraeth Cymru i gyfrif gyda chraffu cadarn. Mae hefyd yn golygu cadw'r gallu i sicrhau llwyddiannau i'n hetholwyr ac i'r genedl.

Dyma ni felly yn cyhoeddi Rhaglen yr Wrthblaid am y tro cyntaf erioed yn hanes democratiaeth Cymru.

Dyw hyn erioed wedi cael ei wneud o'r blaen, ond ein gobaith yw y daw yn y man yn nodwedd rheolaidd o'r cylch democrataidd Cymreig.

Am y tro cyntaf erioed, bydd llywodraeth dan arweiniad Llafur yn wynebu gwrthblaid sydd â Rhaglen amgen fanwl a chynhwysfawr, a byddwn yn anelu at gael rhai elfennau o'r rhaglen honno wedi eu gweithredu.

Mae'r Rhaglen yn adeiladu ar ein maniffesto chwyldroadol ar gyfer etholiad 2016 ac yn ei ail-fywhau. Nid yw'n cynnwys popeth, ac mewn byd sy'n newid mor sydyn, byddwn yn dal yn agored i ymateb i heriau newydd a nodi cyfleoedd fel y maent yn codi. Ond y mae'r Rhaglen yn amlinellu blaenoriaethau allweddol, nodau sy'n gysylltiedig â hwy, a phrosiectau cyfalaf allai helpu i drawsnewid Cymru yn syth bin. Bydd modd ei chyfoesi wrth i dymor y Cynulliad fynd rhagddo ac wrth i ddigwyddiadau ledled y byd ac yma gartref lunio ein cymdeithas a mynnu ymateb.

Bydd Plaid Cymru hefyd yn bwrw ymlaen â chyfres gynhwysfawr o gamau ynghylch tynnu allan o'r UE a'n dyfodol cyfansoddiadol fel rhan o'r Rhaglen hon ac ar y cyd â hi. Wrth wneud hynny, cawn ein harwain gan y cynnig y cytunwyd arno gan aelodau Plaid Cymru yn ein Cynhadledd Arbennig ar Orffennaf 16 eleni.

Mae hwn yn gyfnod hanesyddol i Gymru. Cafodd holl sylfeini ein cenedligrwydd, a'n gwerthoedd Ewropeaidd, eu herio yn ystod ymgyrch y refferendwm.

Ac eto, mae'r her honno wedi creu cyfleoedd i ddychmygu, ac yna sicrhau, patrwm arall o ddyfodol cenedlaethol i Gymru.

Mae'r dyfodol hwnnw yn cwmpasu cysylltiadau annibynnol ein cenedl sy'n edrych allan at weddill Ewrop a'r byd.

Ond rhaid iddo hefyd gynnwys y rheidrwydd i drawsnewid Cymru o'r tu mewn, gan dynnu ar botensial ein pobl, ac ymgyrraedd at genedl ffyniannus sy'n gymdeithasol gyfiawn.

Cyflwynwn Raglen yr Wrthblaid hon i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i'r genedl gyfan.

RHAGLEN YR WRTHBLAID: Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

Gwerthoedd Allweddol

Yr hyn fydd yn llywio ein penderfyniadau yn anad dim fydd gwerthoedd sylfaenol ein plaid fel y'u datgenir yn ein cyfansoddiad:

2.1 Sicrhau annibyniaeth i Gymru yn Ewrop.

2.2 Sicrhau ffyniant economaidd, cyfiawnder cymdeithasol ac iechyd yr amgylchedd naturiol, ar sail sosialaeth ddatganoledig.

2.3 Adeiladu cymuned genedlaethol ar sail dinasyddiaeth gyfartal, parch at wahanol draddodiadau a diwylliannau a gwerth cyfartal pob unigolyn, waeth beth fo'u hil, cenedligrwydd, rhyw, lliw, cred, rhywioldeb, oed, gallu neu gefndir cymdeithasol. Dyma werthoedd craidd y Blaid.

2.4 Creu cymdeithas ddwyieithog trwy hybu adfywiad yr iaith Gymraeg.

2.5 Hybu cyfraniad Cymru i'r gymuned fyd-eang ac ennill aelodaeth o'r Cenhedloedd Unedig.

Amcanion Cenedlaethol

Mae cyfres o Amcanion Cenedlaethol, fel y'u hamlinellwyd ym mis Ionawr 2016, yn sefydlu gweledigaeth Plaid Cymru o Gymru'r dyfodol, a byddant yn set o ddangosyddion/meini prawf allweddol y bydd y blaid yn cyfeirio atynt i asesu cyllidebau drafft ac effeithiolrwydd rhaglenni'r llywodraeth:

- Cymru yw'r lle mwyaf deniadol yn y DG i gynnal busnes
- Yr ydym wedi creu mwy a gwell cyfleoedd am waith i bobl yng Nghymru
- Mae pobl yng Nghymru wedi derbyn gwell addysg, mae ganddynt fwy o sgiliau ac y maent yn llwyddiannus
- Mae gan Gymru enw da ledled y byd am ymchwil ac arloesedd
- Mae ein pobl ifanc yn ddysgwyr llwyddiannus, yn unigolion hyderus, yn gyfranwyr effeithiol ac yn ddinasyddion cyfrifol
- Caiff ein plant y cychwyn gorau mewn bywyd ac y maent yn barod i lwyddo
- Mae pobl yng Nghymru yn byw bywydau hwy ac iachach
- Rydym wedi gwneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal
- Mae cyfleoedd bywyd pobl ifanc, plant a theuluoedd sydd mewn perygl wedi gwella
- Mae pobl yng Nghymru yn byw bywydau sy'n saff rhag trosedd, anhrefn a pherygl

- Mae pob cymuned yn gynaliadwy, yn meddu ar gysylltiadau da ac yn gallu cyrraedd mwynderau a gwasanaethau cyhoeddus
- Cryfhawyd cyfran cymunedau yn eu lles eu hunain
- Caiff ein hamgylchedd naturiol ei warchod a'i ddiogelu at yr oesoedd a ddêl
- Gall pawb yng Nghymru ymfalchïo yn ein hunaniaeth genedlaethol gynhwysol a blaengar
- Mae cyllid cyhoeddus Cymru yn gryfach
- Mae economi Cymru yn fwy cytbwys ac amrywiol
- Gall mwy o bobl gael addysg Gymraeg, mae mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd, ac y mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu
- Rydym wedi lleihau effaith leol a byd-eang yr hyn yr ydym yn ei ddefnyddio ac yn gynhyrchu
- Gall ein pobl gynnal eu hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio a gallant gael y gefnogaeth briodol pan fyddant ei angen
- Mae ein gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel, yn gwella'n gyson, yn effeithiol ac yn ymateb i anghenion pobl leol

Tri Nod Allweddol

Mae'r tri Nod Allweddol yn strategol ac yn llywio Rhaglen yr Wrthblaid.

1. AMDDIFFYN CYMRU RHAG CANLYNIADAU BREXIT YN SYTH

Byddwn yn ymdrechu i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol yn deillio o'r refferendwm. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar yr economi ac ar fasnach, ond hefyd yr effaith ar gymdeithas ac ar ddiwylliant. Cyn i Brexit ddigwydd mewn gwirionedd, byddwn yn cynnig modelau amgen i berthynas Cymru gyda'r UE yn y dyfodol. Byddwn wedyn yn pledio hyn yn ystod unrhyw drafodaethau ar Erthygl 50 neu adael yr UE, gan wneud yn siŵr nad partner mud fydd Cymru yn y ddadl ar hyd y DG.

2. ADEILADU'R GENEDL DROS Y TYMOR HIR

Bydd ein rhaglen bolisi yn parhau i osod seiliau llwyddiant cenedlaethol yn y dyfodol, ym mhob maes. Adeiladu'r genedl fydd ein pwrpas craidd o hyd, a dyma fydd ar flaen y gad yn Rhaglen yr Wrthblaid. Yr ydym yn benderfynol y dylai Cymru gael dyfodol fel cenedl yn ei hawl ei hun, gyda'i sefydliadau ei hun, ei llwyddiannau ei hun ac ymdeimlad o hunan-hyder.

3. AGWEDD SY'N CWMPASU CYMRU GYFAN HEB ADAEL YR UN GYMUNED NAC UNIGOLYN AR ÔL

Mae Plaid Cymru yn cymryd agwedd at bolisi cyhoeddus sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Dylai buddsoddiad, cyfle ac adnoddau gael eu lledaenu mor gyfartal ag sydd modd ledled Cymru. Trwy hyn, yr ydym yn golygu elfen ddaearyddol, gan ail-gydbwyso Cymru ymaith oddi wrth or-ganoli'r wladwriaeth yn unrhyw un rhanbarth. Ond credwn hefyd y dylai'r llywodraeth a'i hasiantaethau estyn allan i'r cymunedau hynny a'r rhannau o gymdeithas sy'n anodd eu cyrraedd, neu a esgeuluswyd. Dyma un o themâu ein maniffesto yn 2016 ac erys yn ganolog i'n hideoleg a'n gweledigaeth i Gymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Wedi pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn cynllunio ac yn llunio ein holl bolisïau mewn modd fydd yn helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Fe wnaethom ymrwymo i hyn yn ein maniffesto, ac yr ydym yn derbyn y Ddeddf yn llawen fel un a allai sbarduno newid.

Y perygl amlwg yw mai dal ati fel o'r blaen wnaiff pethau dan y llywodraeth bresennol. Defnyddiwyd y Ddeddf eisoes yn ôl-weithredol i gyfiawnhau penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru a wnaed cyn bod sôn am y Ddeddf. Wrth graffu ar y llywodraeth, ein nod ni fydd gofalu y bydd y Ddeddf yn gwneud yr hyn a addawyd, ac y bydd yn wir yn creu newid diwylliant, ym mecanwaith y llywodraeth, a'r gymdeithas yn ehangach.

RHAGLEN YR WRTHBLAID: MEYSYDD POLISI

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Iechyd

Gweledigaeth gyffredinol Plaid Cymru yw ymdeimlo ag ysbryd Bevan i ail-lunio'r GIG ar gyfer Cymru yfory.

Fel y maes yn Llywodraeth Cymru sy'n cymryd y rhan helaethaf o'r gyllideb mae iechyd yn galw am y nifer fwyaf o ymyriadau.

I gyflawni ein huchelgais yn llawn, byddai'n rhaid cael llywodraeth Plaid Cymru, a byddai'n para am fwy nag un tymor Cynulliad. Mae'n golygu gwneud y gwasanaeth yn addas at y dyfodol. Ond gallwn ddechrau unioni camreolaeth Llafur ar y gwasanaeth iechyd yn syth.

Byddai'r GIG dan Blaid Cymru yn llwyr mewn dwylo cyhoeddus, byddai yn rhoi blaenoriaeth i atal afiechyd lle bo modd, ac yn ymateb i afiechyd gyda thriniaeth yn ei bryd mor agos i gartref ag sydd modd, gan ddefnyddio'r triniaethau a'r technolegau mwyaf modern.

Blaenoriaethau Allweddol

1. **Rhoi diwedd ar berfformiad gwael mewn amseroedd aros ar gyfer profion a thriniaeth**

Bu amseroedd aros am driniaeth a diagnosis mewn llawer maes arbenigol yn dirywio ers blynyddoedd, ac y maent yn hwy nac yng nghenhedloedd eraill y DG, gan gynnwys mewn ardaloedd sy'n gwario llai ar iechyd na ni. Oherwydd hyn, buasem yn gwneud y canlynol:

- *Datblygu tair canolfan ddiagnostaidd aml-ddisgyblaethol, gan anelu i gynnal profion a rhoi diagnosis am ganser o fewn 28 diwrnod er mwyn gallu cychwyn ar driniaeth ynghynt.*
- *Gwella perfformiad ar amseroedd aros trwy Warant Triniaeth Cleifion fyddai'n statudol, a monitro perfformiad byrddau iechyd yn llymach o lawer.*
- *Recriwtio a hyfforddi 1,000 o feddygon yn ychwanegol a 5000 o nyrsus yn ychwanegol - gan gynnwys cyflwyno cymhellion ariannol i ardaloedd ac arbenigeddau lle mae'n anodd denu pobl.*

2. **Cynnal ac adfer gwasanaethau lleol**

Dan Lafur, collwyd llawer o wasanaethau o ysbytai dosbarth cyffredinol a'u canoli oherwydd prinder meddygon. Hefyd, mae llawer practis meddyg teulu yn cau neu dan fygythiad oherwydd prinder meddygon teulu. I fynd i'r afael â hyn, buasem yn:

- *Recriwtio a hyfforddi 1,000 o feddygon yn ychwanegol a 5000 o nyrsus yn ychwanegol - gan gynnwys cyflwyno cymhellion ariannol i ardaloedd ac arbenigeddau lle mae'n anodd denu pobl.*
- *Creu gwasanaeth Arbenigol Cenedlaethol gyda gwarant o Adran Frys/Mamolaeth sydd yn agos at gartref i bob cymuned*
- *Datblygu rhwydweithiau clinigol fel y gall meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn bennaf mewn ysbytai llai gynnal eu sgiliau i safon ddigonol.*
- *Buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant meddygol fel y gallwn greu cenhedlaeth newydd o feddygon, gan gynnwys ysgol feddygol newydd ym Mangor a chynyddu nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n ymgeisio am lefydd mewn ysgolion meddygol*
- *Diwygio canllawiau cynllunio y GIG i osgoi cosbi ysbytai gwledig.*
- *Buddsoddi mewn technolegau newydd megis telefeddygaeth i leihau amseroedd teithio am driniaethau arbenigol*
- *Dod â gwasanaethau arbenigol yn ôl o Loegr, gan gynnwys sefydlu uned gofal arbenigol i fabanod newydd-anedig yng ngogledd Cymru, clinig anhwylderau bwyta, a chlinig hunaniaeth rhywedd.*
- *Cadw gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgyghorwyr yn y tri ysbyty cyffredinol yng ngogledd Cymru.*

3. Gwella Iechyd Meddwl a mynediad at therapi

Dioddefodd gwasanaethau iechyd meddwl o ddiffyg arian ers yn rhy hir, er bod mwy a mwy o alw am y gwasanaethau hyn. Mae gormod o bobl yn aros yn rhy hir i weld therapyddion, ac nid yw'r gefnogaeth mewn argyfwng yn aml ar gael. Byddai Plaid Cymru yn gwneud y canlynol:

- *Cynyddu'r gwriant ar wasanaethau iechyd meddwl ym mhob blwyddyn o dymor y Cynulliad.*
- *Gofalu bod mwy o therapyddion ar gael yn y gymuned.*
- *Sefydlu canolfan breswyl arbenigol i bobl ag anhwylderau bwyta.*
- *Sicrhau bod gofal argyfwng ar gael 24/7 ledled Cymru.*
- *Gofalu fod plant yn derbyn addysg am sut i gynnal iechyd meddwl da trwy ddiwygio'r cwricwlwm.*

4. Arbed 10,000 o Fywydau trwy well gofal yn yr ysbyty

Yn gyffredinol, byddwn yn gostwng nifer y marwolaethau y gellir eu hatal o 25% erbyn 2026. Gwyddom fod marwolaethau y gellir eu hatal ryw 15% yn uwch yng Nghymru nac yn Lloegr. Bydd ein cynllun ni yn arbed 10,000 o fywydau dros y cyfnod 2016-2026 trwy fesurau megis:

- *Ymestyn y Mesur Lefelau Nyrsio Diogel i fwy o ysbytai i leihau digwyddiadau andwyol, heintiadau mewn ysbytai a chymhlethododau tymor-hir a achosir gan ddiffyg staff*
- *Buddsoddi mewn gwell gwasanaethau gofal cymdeithasol all gadw pobl yn byw yn annibynnol*
- *Creu rhwydwaith gofal meddygol addas i'r 21ain i hwyluso'r trosi o ysbyty yn ôl i'r gymuned, a rhoi mynediad yn gynt at ofal seibiant i atal mwy o bobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty.*

5. Atal afiechyd yn y tymor hwy

- *Mynd i'r afael ag ysmygu trwy gefnogi colegau a phrifysgolion i wahardd ysmygu ar y campws, ac ymgynghori ynghylch codi'r isafswm oed ar gyfer prynu sigaréts i 21.*

- *Mynd i'r afael ag alcoholiaeth a chamddefnyddio sylweddau trwy gyflwyno deddfwriaeth ar isafswm pris uned am alcohol, a gofalu bod rhwydwaith o gyfleusterau ymadfer preswyl o gyffuriau ac alcohol ar gael ym mhob rhan o Gymru.*
- *Mynd i'r afael â gordewdra trwy newid radical mewn polisi fyddai'n cynnwys cynnal treial rheoledig ar hap ar effeithiau rhoi cymhorthdal ar swm y ffrwythau a llysiau a fwyteir, hybu mwy o chwaraeon ar lawr gwlad, a buddsoddi'n sylweddol i hybu bwyta'n iach.*

Prosiectau Cyfalaf

- Canolfannau diagnostig aml-ddisgyblaethol
- Ysgol Feddygaeth newydd ym Mangor
- Uned gofal arbenigol newydd-eni yng ngogledd Cymru
- Clinig hunaniaeth rhywedd.

ADDYSG

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Addysg

Mae gan addysg y potensial i drawsnewid hynt y genedl. Gweledigaeth Plaid Cymru yw un fyddai'n rhoi grym i'n pobl ifanc trwy'r system addysg i gyrraedd eu llawn botensial.

Yn ganolog i'r hyn a gynigiwyd gennym yn ein maniffesto am 2016 oedd codi statws y proffesiwn dysgu trwy'r Premiwm Dysgu Cenedlaethol.

Yn gyfnewid am y Premiwm Dysgu Cenedlaethol byddwn yn disgwyl i'r proffesiwn dysgu yng Nghymru osod strategaeth genedlaethol y cytunir arni i godi safonau cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru mewn cymhariaeth â pherfformiad addysgol y DG ac yn rhyngwladol, fyddai'n cyfateb i gyrraedd y 10 uchaf yn Ewrop ar draws pum maes profion PISA– llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth, datrys problemau a llythrennedd ariannol erbyn 2026.

Byddwn yn aros am ganfyddiadau Adolygiad Diamond am ddyfodol addysg uwch a ffioedd myfyrwyr, gan gredu mai system gynaliadwy o ffioedd dysgu sydd yn cefnogi myfyrwyr, ac yn rhoi digon o arian i sefydliadau addysg uwch Cymru yw'r ffordd orau ymlaen. Mae'r berthynas rhwng cefnogaeth ffioedd a chyllid addysg uwch yn hollol hanfodol i ddyfodol ein sector prifysgolion, yn fwy fyth felly yng ngoleuni'r her sy'n deillio o ganlyniad refferendwm yr UE.

Blaenoriaethau Allweddol: Addysg Gynnar ac Ysgolion

1. *Gofal plant am ddim i blant tair a phedair oed, gan sicrhau fod darpariaeth gofal plant o safon uchel ar gael ym mhob rhan o Gymru*

2. *Sicrhau system addysg seiliedig ar ddeilliannau, gyda model cenedlaethol o olrhain plant er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd eu potensial, gyda chymorth yn cael ei roi yn gynnar i'r rhai sydd ar ei hôl hi.*

3. *Diwygio hyfforddiant athrawon, gyda'r nod o wneud dysgu yn broffesiwn lefel Meistr.*

4. *Lleihau biwrocratiaeth fel bod athrawon yn treulio mwy o amser yn y dosbarth – seilio arolygiadau ar risg, yn hytrach nac amser.*

5. *Gwneud y Gymraeg mewn addysg yn gontinwwm o ddysgu er mwyn symud ymaith oddi wrth y rhaniad Cymraeg iaith gyntaf/ail iaith, a sicrhau fod pob disgybl yn derbyn peth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.*

Nodau Eraill: Addysg Gynnar ac Ysgolion

- Diwygio'r Cyngor Gweithlu Addysg i'w wneud yn gorff proffesiynol hollol annibynnol sydd yn ei reoleiddio ei hun, sy'n gyfrifol am safonau dysgu a datblygu proffesiynol parhaus, a gwneud DPP i bob athro ac athrawes yn hawl ac yn ddyletswydd os ydynt am barhau i fod yn broffesiynol fedrus.
- Pwyso am un ganolfan ar gyfer Hyfforddi Cychwynnol i Athrawon fyddai wedi cysylltu â chanolfannau ymchwil pedagogaidd, yn dilyn o adolygiad Furlong.
- Datblygu menter gydweithredol genedlaethol i athrawon llawn er mwyn sicrhau fod athrawon llanw yn derbyn yr un hawl a haeddiant.
- Galw am ddefnyddio pwerau statudol i sicrhau fod pob Awdurdod Addysg Lleol yn cyflawni eu Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg trwy gryfhau'r pwerau sy'n bod eisoes i wneud yn siŵr fod pob CSAG yn cynnwys dyddiadau a lleoliadau penodol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Cefnogi deddfwriaeth i gynnal y sawl ag anghenion addysg ychwanegol er mwyn sicrhau ymyriad cynnar a chefnogaeth effeithiol.
- Pwyso ar i bawb 16-18 oed gael eu cefnogi yn y system addysg ac am drafnidiaeth am ddim i ysgol/colegau i'r rhai 16-18 oed.
- Buddsoddi mewn ysgolion fel canolfannau cymunedol trwy'r CSCG, gyda chyfleusterau megis campfeydd, pyllau nofio a llyfrgelloedd ar agor i gymunedau y tu allan i oriau ysgol a gwell darpariaeth gofal plant a chlybiau wedi ysgol.

Blaenoriaethau Allweddol: Addysg Uwch, Addysg Bellach a Sgiliau

1. *Sicrhau bod y system o ffioedd dysgu myfyrwyr yn gynaliadwy fel bod gan brifysgolion Cymru fwy o adnoddau a bod mwy o raddedigion yn aros yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru*

2. *Adfer cyllid i addysg bellach i wneud iawn am y toriadau wnaeth Llywodraeth Cymru dros dymor diwethaf y Cynulliad, gan sicrhau darpariaeth i fyfyrwyr rhan-amser a llenwi bylchau sgiliau Cymru.*
3. *Cynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys prentisiaethau lefel uwch, gan dargedu sectorau sy'n wynebu prinder sgiliau.*
4. *Datblygu addysg bellach a dysgu yn y gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg trwy ymestyn cylch gorchwyl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector ôl -16.*
5. *Datblygu gwarant o swydd i bobl ifanc dan 25 fu'n chwilio am waith ac nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant.*

Nodau eraill: Addysg Uwch, Addysg Bellach a Sgiliau

- Datblygu rhaglen Gwasanaeth Cenedlaethol Dinasyddion fydd ar agor i bawb 18-25 oed yng Nghymru ac a fydd yn golygu lleoliad llawn-amser am 9-12 mis, taledig ac wedi ei gymeradwyo.

- Cefnogi corff cyfun ar gyfer addysg bellach ac uwch i hybu cydraddoldeb parch rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol, yn dilyn adolygiad Hazelkorn.
- Sicrhau gwell cyllid i fyfyrwyr ôl-raddedig.
- Pwyso am gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n ymrestru ar gyrsiau gradd gyntaf mewn prifysgolion y tu allan i'r DG, ar linellau tebyg i'r cynllun peilot diweddar yn yr Alban.
- Edrych i weld a allwn, fel mater o frys, sicrhau mwy o gefnogaeth i Erasmus+, cyn tynnu allan o'r UE, fel bod mwy o'n pobl ifanc yn cael cyfle i astudio am ran o'u gradd neu leoliad gwaith mewn mannau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.
- Pwyso am sefydlu Coleg Adeiladwaith Cenedlaethol, Coleg Cenedlaethol Sgiliau Gwyrdd a Choleg Digidol Cenedlaethol, dan arweiniad cyflogwyr a/neu brifysgolion.

Blaenoriaethau Allweddol: Plant a Phobl Ifanc

1. *Cefnogi deddfwriaeth i wneud i ffwrdd ag amddiffyniad cosb resymol*

2. *Mynd i'r afael â'r amseroedd aros annerbyniol o hir am wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a sicrhau fod y trosi i wasanaethau oedolion yn cael eu gwneud yn gadarnach ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd briodol i'r oedran er mwyn gofalu fod pobl ifanc yn barod.*

3. *Datblygu Cynllun Gweithredu Tlodi Plant i fynd i'r afael â thlodi plant sydd yn effeithio ar un o bob tri o blant yng Nghymru*

4. *Sefydlu Senedd Ieuenctid Cenedlaethol i Gymru.*

Nodau eraill: Plant a Phobl Ifanc

- Sicrhau adnoddau digonol i becynnau cefnogi gofalwyr ifanc, cefnogi adnabod gofalwyr ifanc a rhoi iddynt yr help i gyrraedd eu potensial o ran ennill cymwysterau a gwaith.
- Datblygu gwasanaeth ieuenctid gwirioneddol genedlaethol, gan ofalu fod pob person ifanc, waeth beth fo'r cod post, yn derbyn y gwasanaethau gorau oll
- Datblygu a chefnogi dewisiadau eraill yn lle carchar i droseddwyr ifanc fel nad ydynt yn mynd i mewn i gylch o droseddu.
- I amddiffyn ein plant mwyaf bregus yn well, byddwn yn adolygu effeithiolrwydd darpariaeth amddiffyn plant er mwyn gwneud yn siŵr fod ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithredu'n effeithiol.

Prosiectau Cyfalaf

- Gwaith cyfalaf ar Goleg Adeiladwaith Cenedlaethol, Coleg Cenedlaethol Sgiliau Gwyrdd a Choleg Digidol Cenedlaethol.
- Gorffen unrhyw brosiectau cyfalaf a gyllidir gan yr UE mewn addysg bellach ac uwch mor fuan a phendant ag sydd modd, gan gychwyn prosiectau cyn torri ymaith unrhyw gyllid UE o ganlyniad i Brexit.

ECONOMI A CHYLLID

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer yr Economi a Chyllid

Yr economi sydd wrth graidd gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Cymru. Mae ei lwyddiant neu fethiant yn pennu a all ein pobl ifanc aros yng Nghymru neu orfod gadael.

Ein hamcan economaidd yn y tymor canol yw dwyn Cymru i fyny i gydraddoldeb economaidd gyda'r DG o fewn cenhedlaeth – hynny yw, cyfnod o ugain mlynedd hyd at 2036. Mae hyn yn golygu cyrraedd cyfradd twf GVA i Gymru o ryw 3.5% bob blwyddyn, sy'n cyfateb i £1.5 biliwn yn ychwanegol mewn cynnyrch i economi Cymru bob blwyddyn. Mae hyn yn heriol, ond nid yn amhosib o bell ffordd. Llwyddodd Gwlad y Basg i gael cyfradd twf cyfartalog mewn GVA o 3.69% rhwng 1995 a 2008.

Blaenoriaethau Allweddol: Economi

1. *Creu Awdurdod Datblygu Cymru (ADC) i'r 21^{fed} ganrif fydd yn gwerthu Cymru, ein cynhyrchion a'n syniadau, i'r byd er mwyn tyfu busnesau Cymru a rhoi hwb i'n hallforion.*

2. *Deddfu i ofalu y gall cwmnïau Cymreig sicrhau 75% o wariant caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan gynyddu'r hyn a werir ar hyn o bryd yng Nghymru o 52% yn awr, a chreu dros 40,000 o swyddi newydd o ganlyniad.*

3. *Creu Banc Cenedlaethol Cymru, banc mewn dwylo cyhoeddus fydd yn darparu cyllid dyled i fusnesau Cymru i helpu i gau'r bwlch yr amcangyfrifir sy'n £500m y flwyddyn a wynebir gan BBaCh Cymru ac yn helpu i fusnesau sydd mewn dwylo Cymreig dyfu i faint canolig (rhwng 250 a 500 o weithwyr, fel y Mittelstand yn yr Almaen).*

4. *Ymestyn y Cynllun Rhyddhad i Fusnesau Bach o Ardrethi Busnes i helpu pob busnes gyda gwerth ardrethol o £20,000 neu lai – byddai 90,000 o gwmnïau yn elwa, a thros 70,000 yn cael eu cymryd allan o dalu ardrethi busnes yn gyfan gwbl.*

5. *Sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (SCCG), corfforaeth gyhoeddus annibynnol fydd yn cynllunio, cyllido ac yn cyflwyno'r dyheadau a osodir allan yn y Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cenedlaethol i foderneiddio seilwaith trafnidiaeth, telegyfathrebu, ynni a gwyrdd ein cenedl.*

Nodau eraill: Economi

- Creu Cyrff Datblygu Rhanbarthol yng Nghymru ei hun, gan gychwyn gyda Chorff Datblygu'r Cymoedd, a chorff fydd yn ymestyn dros Gymru wledig a'r gorllewin.

- Cefnogi bid am Expo Cymru ar gyfer 2025.

- Datblygu cwmni telathrebu mewn dwylo cyhoeddus i ymdrin â band llydan a derbyniad ffonau symudol.

- Sefydlu cyfrwng trafod digidol i Gymru.

- Creu Academi Genedlaethol ar gyfer Twristiaeth, gyda gwesty a chanolfan gynadledda ar y safle.

- Datblygu model penodol Gymreig o dwristiaeth, ar sail hybu a dathlu ein hiaith, treftadaeth, diwylliant a thirwedd.

- Sefydlu ysgol busnesau cymdeithasol.

- Cyflwyno parcio am ddim yng nghanol trefi.

- Sefydlu Canolfan Genedlaethol Arloesedd Dur.

- Cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar hyd a lled y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Blaenoriaethau Allweddol: Cyllid

1. *Sefydlu comisiwn seneddol dan nawdd y Cynulliad i ymchwilio i ddiwygio treth y cyngor neu gael ffurf arall yn ei le.*

2. *Cyflwyno gostyngiadau treth cysylltiedig ag arloesedd i Gymru.*

3. *Rhoi pwerau i gynghorau Cymru gyflwyno lefi twristiaeth.*

4. *Agweddau newydd at osod cyllidebau, gan gynnwys cyllidebu cyfranogol, adolygiadau cyllideb seiliedig ar dystiolaeth, sydd â sylfaen o sero ac sy'n cael eu harwain gan arbenigwyr.*

Nodau eraill: Cyllid

- Parhau i geisio fframwaith gyllido fydd yn caniatáu cyflwyno trethi datganoledig a phwerau ariannol newydd i Gymru.

- Gwella data ar gyllid cyhoeddus Cymru, a chraffu ariannol ar draws pob agwedd o lywodraeth.

- Buddsoddi yng nghynilion y dyfodol trwy Gronfa Arloesedd ac Entrepreneuriaeth y Sector Cyhoeddus.

- Darparu Cronfa Her Gydweithredol i gyllido astudiaethau marchnad a dichonoldeb i grwpiau sy'n edrych i mewn i ddewisiadau ynghylch sefydlu mentrau cydweithredol.

Prosiectau Cyfalaf

- Bydd y rhan fwyaf o brosiectau cyfalaf ar gyfer hybu'r economi yn uniongyrchol ym maes trafnidiaeth, neu yn is i lawr y gadwyn dan gylch gorchwyl y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol.

- Mae pob buddsoddiad cyfalaf mewn tai a stad y sector cyhoeddus o les i'r economi ac i'r diwydiant adeiladu, a byddwn yn galw am ehangu pwerau benthyca i Gymru a dulliau cyllido newydd ac arloesol cyn unrhyw ddirwasgiad neu ffurf arall ar gwymp economaidd.

TRAFNIDIAETH

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Trafnidiaeth

Mae creu system drafnidiaeth genedlaethol addas i'r 21ain ganrif yn hanfodol bwysig i'n hamcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach fel cenedl.

Credodd Plaid Cymru ers tro byd fod modd defnyddio trafnidiaeth i uno a chysylltu cenedl sydd yn hanesyddol wedi dioddef o gysylltiadau tameidiog ac anghyflawn.

Mae trafnidiaeth yn faes lle bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu rhai o'r penderfyniadau mwyaf yn hanes democratiaeth Gymreig. Byddwn yn eu dal i gyfrif ar adnewyddu masnachfraint Cymru a'r Gororau, cyflwyno cludiant cyhoeddus ingtegredig, a systemau Metro yn y de-ddwyrain a'r gogledd, a dosbarthu gwariant ar ffyrdd, rheilffyrdd a gorsafoedd newydd ledled y wlad.

Blaenoriaethau Allweddol

1. *Rhoi digon o adnoddau i 'Trafnidiaeth i Gymru', corff hyd braich nid-am-elw i oruchwylio cydgordio a gwella trafnidiaeth ym mhob cwr o Gymru; yn enwedig trwy fasnachfraint Cymru a'r Gororau.*

2. *Creu Metro'r de-ddwyrain yn ogystal a rhwydwaith Metro cyffelyb i ogledd Cymru ac i Abertawe a chymoedd y gorllewin; yn anad dim, gofalu nad yw'r rhwydweithiau hyn yn gadael cymunedau allweddol ar y cyrion.*

3. *Buddsoddi mewn gwelliannau i'r A55, gan gynnwys rhaglen o fuddsoddi mewn lleiniau caled a gwelliannau i gyffyrdd, uwchraddio'r darn rhwng Abergwyngregyn a Thai'r Meibion a chodi trydydd Pont Menai (deuoli Pont Britannia bresennol) i leihau tagfeydd a gwella gwytnwch y cyswllt rhwng Môn a'r tir mawr .*

4. *Gwella'r M4 trwy'r "Llwybr Glas" mwy cost-effeithiol neu amrywiad arno.*

5. *Gosod seiliau, ac yn nes ymlaen, llwyddo i gyflawni, coridor rheilffyrdd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, gyda'r potensial am fwy o bosibiliadau mewn mannau eraill ar hyd arfordir y gorllewin.*

Nodau eraill

- Codi lefel y cyllido yr unigolyn ar deithio bywiog yng Nghymru.

- Dileu tollau i drigolion Cymru ar Bontydd Hafren, os cyfyd cyfle erbyn diwedd y tymor hwn.

- Cyflawni ar ymrwymiadau Plaid Cymru ym mater Masnachfraint Cymru a'r Gororau megis gwarchod map y llwybrau presennol a'r cysylltiadau i Loegr, cynrychiolaeth gweithwyr a theithwyr ar y bwrdd, tocynnu clyfar, strwythur prisiau tecach, a model lle mae elw'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.

- Buddsoddi mewn datblygu pellach ar rannau pedair-lôn wedi eu deuoli ar hyd llwybrau strategol mewnol Cymru.

- Ail-reoleiddio'r bysus pan gawn y pwerau.
- Rheoleiddio a gwella'r diwydiant tacsis i gwsmeriaid a gyrwyr.
- Amddiffyn tocynnau bws am ddim a thocynnau rhad i'r sawl sy'n gymwys ar hyn o bryd.
- Datblygu gwasanaethau pellter-maith ym Maes Awyr Cymru Caerdydd, os bydd angen trwy greu cwmni cludo cenedlaethol cost-isel.
- Parhau gyda chefnogaeth gyhoeddus i Faes Awyr Cymru Caerdydd a chynyddu nifer y teithwyr.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd am swyddi o gwmpas meysydd awyr eraill Cymru.
- Cyhoeddi strategaeth teithio awyr genedlaethol i Gymru.
- Datblygu a chyflwyno cynllun i ofalu y gwêl cymunedau'r cymoedd unrhyw fudd ddau o system Metro, gan gynnwys o bosib hybu'r cymoedd fel man i adleoli busnesau a datblygu tai a cyfleoedd hamdden.
- Trafod i ddileu'r tollau ar Bont Cleddau.
- Creu Strategaeth Porthladdoedd Cenedlaethol, gan nodi lle mae angen gwelliannau i'r seilwaith.

Prosiectau Cyfalaf

- Gorsafoedd a rheilffyrdd newydd fel rhan o Fetro de-ddwyrain Cymru a systemau trafnidiaeth integredig eraill, gyda dewisiadau penodol ar sail anghenion cymdeithasol ac economaidd.
- Cynyddu gallu Lein y Cymoedd, yn enwedig trwy ddyblu'r lein rhwng Porth a Threherbert.
- Gorsafoedd rheilffyrdd newydd ac ail-agor rhai y tu allan i ardaloedd y 'Metro'.
- Pecyn o welliannau i'r A55.
- Gwelliannau i lwybrau strategol mewnol Cymru, yn dibynnu lle mae'r achos cymdeithasol ac economaidd yn caniatáu.
- Datblygu rhaglen o welliannau i Orsafoedd Bysus Cenedlaethol, tebyg i'r cynllun sy'n bodoli ar gyfer rheilffyrdd.
- Gwella coridorau ffyrdd gorllewin Cymru, yn bennaf rhwng Caerfyrddin a Llandysul, a rhwng Castell Newydd Emlyn ac Aberteifi.
- Sicrhau y cefnogir ail-agor twnnel y Rhondda fel llwybr beicio ac atyniad i ymwelwyr.

LLYWODRAETH LEOL, LLYWODRAETHIANT A'R CYFANSODDIAD

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, Llywodraethiant a'r Cyfansoddiad

Bydd Plaid Cymru yn parhau i ddatgan y dylai Cymru gymryd cyfrifoldeb dros ei dyfodol ei hun.

Mae'r byd o'n cwmpas yn newid yn gyson, a byddwn ni fel plaid yn ymateb yn syth i unrhyw amgylchiadau newydd, gan sicrhau yn wastad y lefel uchaf bosib o ymreolaeth a hunan-lywodraeth.

Er y caiff llawer o safbwynt cyfansoddiadol y blaid ei lunio gan adael yr UE a dyfodol y gwledydd sy'n gymdogion agosaf i ni, mae ein cynrychiolwyr yn San Steffan yn parhau i weithio'n ddiflino ar Fesur Cymru, a all ddangos meysydd lle gellid cryfhau democratiaeth Gymreig yn syth.

Mae llywodraethiant mewnol Cymru yr un mor bwysig i'n gweledigaeth o ddemocratiaeth Gymreig, yn sicr ar lefel llywodraeth leol. Bydd y modd mae ein gwlad yn gweithredu a'r strwythurau llywodraethiant yn pennu a all ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi lwyddo mewn gwirionedd.

Blaenoriaethau Allweddol: Llywodraeth Leol a Chynllunio

1. *Cefnogi creu Awdurdodau Rhanbarthol Cyfun fel sail i ad-drefnu llywodraeth leol.*
2. *Unwaith i'r haen ranbarthol o lywodraeth fod â chyfeiriad clir, mynd ati i greu haen o lywodraeth sy'n addas at y diben ar lefel cymuned a/neu ardal.*
3. *Dileu CDLl methiannus ac yn eu lle cael Cynlluniau Datblygu Rhanbarthol a Strategol.*
4. *Sefydlu Arolygiaeth Gynllunio annibynnol i Gymru, yn enwedig i roi terfyn ar ragamcanion gwallus ynghylch poblogaeth.*
5. *Gwneud newid defnydd tuag at ail gartref yn destun cais cynllunio gorfodol, ynghyd â mesurau eraill megis codi mwy o dreth cyngor a Threth Tir Ardoll Stamp yng nghyswllt ail gartrefi.*

Nodau eraill: Llywodraeth Leol a Chynllunio

- Datblygu strategaeth TGCh i Gymru gyfan ar gyfer llywodraeth leol.
- Cyflwyno fformiwla newydd o grant llywodraeth leol uniongyrchol ar sail cyd-gynllunio adnoddau, cydnabod natur wledig a thlodi.
- Gofalu bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn adlewyrchu'r angen am dwf cytbwys ym mhob rhan o Gymru, ac yn datgan swyddogaethau clir i ranbarthau Cymru.
- Mwy o bwyslais ar rymuso llywodraeth leol a'u medrau yn gyffredinol, fel yr argymhellwyd yng ngwaith polisi Plaid Cymru ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.
- Cryfhau TAN 20 i adlewyrchu'r darpariaethau newydd yn Neddf Gynllunio 2015 sy'n gwneud effaith ieithyddol yn ffactor berthnasol am y tro cyntaf

Blaenoriaethau Allweddol: Llywodraethiant a'r Cyfansoddiad

1. *Parhau i ymwneud mor llawn ag sydd modd gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn sicrhau buddiannau Cymru yn awr ac yn y dyfodol.*
2. *Gwneud y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) yn sail i etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau lleol.*
3. *Creu Coleg Gwasanaeth Sifil Newydd fel rhan o Ysgol Genedlaethol Llywodraethu.*
4. *Cael yr hawl i bleidleisio yn 16 a sefydlu senedd ieuenctid genedlaethol etholedig.*

5. *Dwyn gerbron safbwynt Cymreig clir ar ddatganoli awdurdodaeth gyfreithiol, plismona, cyfiawnder troseddol, darlledu, ynni ac adnoddau naturiol, seilwaith rheilffyrdd a thrafnidiaeth; a chyfleu'r weledigaeth hon yn glir i bob plaid yn San Steffan.*

Nodau eraill: Llywodraethiant a'r Cyfansoddiad

- Cefnogi unrhyw atal neu ddiddymu Mesur Undebau Llafur adweithiol Llywodraeth y DG.
- Gwneud Comisiynwyr Statudol yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Cyflwyno Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus newydd.
- Ymchwilio i ffyrdd o wella cyfranogiad dinasyddion mewn democratiaeth Gymreig.
- Ymchwilio i ffyrdd o annog corff mwy amrywiol o gynrychiolwyr etholedig.
- Sefydlu Sefydliad Heddwch Cymreig.

Prosiectau Cyfalaf

- Gweithiau cyfalaf yn gysylltiedig â chreu Coleg Gwasanaeth Sifil Newydd.

TAI

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Tai

Gweledigaeth y blaid yw un o dai fforddiadwy i bawb – mewn perchenogaeth breifat, rhentu preifat, a thai cymdeithasol.

Yr oedd ein maniffesto yn rhagweld agwedd newydd tuag at dai lle gellid defnyddio ffynonellau amrywiol o gyflwyno a chyllido i dalu am stoc tai newydd, gan gynnwys trwy'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, Cwmni Tai Cenedlaethol, a Chorfforaeth Ddatblygu Cymunedol. Byddai'r rhain yn bodoli ochr yn ochr â'r ffynonellau tai presennol mewn llywodraeth leol, landlordiaid cymdeithasol a'r sector preifat.

Mae ein gweledigaeth am dai yn cyd-fynd â'r modd yr ydym yn sylweddoli sut mae'r system gynllunio yn gweithio, a'i rôl yn amddiffyn mannau gwyrdd. Dylid bod yn strategol a gofalus wrth ddewis ardaloedd ar gyfer datblygu tai.

Bydd Plaid Cymru hefyd yn gwella stoc tai Cymru yn ddramatig trwy ein hagenda polisi ar ynni.

Blaenoriaethau Allweddol

Tai Fforddiadwy i bawb – trwy berchenogaeth, rhentu preifat a thai cymdeithasol

1. *Creu Cwmni Tai Cenedlaethol fydd yn benthyca yn erbyn rhenti i godi cenhedlaeth newydd o dai cyhoeddus ar rent yng Nghymru, a'r unig gyfyngiad fyddai y galw.*
2. *Gwrthwynebu'r cynllun Hawl i Brynu a chymryd camau i sicrhau yr erys y stoc tai cymdeithasol yn gyfan er mwyn cwrdd â'r galw am gartrefi.*
3. *Diwygio'r sector rhentu preifat i wneud yn siŵr y gall gwrdd â gofynion pobl sy'n rhentu yn awr, a bod yn deg i landlordiaid ar yr un pryd.*
4. *Gwneud i ffwrdd â ffioedd asiantaethau gosod, ac ymestyn y prawf o fod yn berson iawn ac addas o drwyddedu landlordiaid i asiantwyr gosod, gan gynnwys cofnod o*

landlordiaid ac asiantwyr gosod y gwelir eu bod wedi troi pobl allan fel modd o ddial neu a gafodd gŵyn gan denant am gyflwr eiddo dan eu rheolaeth.

5. *Sicrhau fod tai newydd o safon gydol oes fel y gallwn gynyddu'r cyflenwad o dai wedi eu haddasu, gan adael i unigolion aros yn eu cartrefi eu hunain heb orfod gwneud mwy o waith addasu drud.*

Nodau eraill:

- Rhyddhau tir cyhoeddus ar gyfer lleiniau hunan-adeiladu am gartrefi fforddiadwy.
- Sicrhau fod tai newydd o safon tai gydol oes.
- Cynnwys tai ar ein hagenda carbon isel a mynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Datblygu cynllun Cymru wledig ar gyfer prosiectau ar raddfa fechan i gwrdd yn benodol â'r angen am dai yn lleol.
- Gwneud iawn yn llawn i'r sawl y mae'r Dreth Ystafell Wely yn effeithio arnynt.
- Rhoi terfyn ar y prawf bwriadu i'r sawl sy'n wynebu digartrefedd a dileu "Prawf Pereira" o Ddeddf Tai (Cymru) yn unol â dyfarniad y Goruchaf Lys yn Lloegr.
- Rhoi mwy o ryddid i awdurdodau lleol a Chymdeithasau Tai osgoi troi pobl allan pan fo ôl-ddyledion wedi eu hachosi gan doriadau mewn budd-daliadau lles.

Prosiectau Cyfalaf

- Anelu at godi 10,000 o dai yn ychwanegol y tu hwnt i'r targed presennol ar gyfer anghenion lleol a fforddiadwy, lle mae cyllido arloesol a'r tir sydd ar gael yn caniatáu.
- Cyflwyno'r Cynllun Effeithiolrwydd Ynni Tai.

YNNI A'R AMGYLCHEDD

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Ynni a'r Amgylchedd

Rhaid mynd i'r afael a newid hinsawdd ar draws holl gylch gorchwyl unrhyw lywodraeth. Rhaid cymryd camau lliniaru ac ymaddasu i'w effeithiau er mwyn cynnal ansawdd bywyd da i genedlaethau Cymru'r dyfodol. I Blaid Cymru, mae realiti newid hinsawdd yn effeithio ar ein polisïau ar drafnidiaeth, tai, yr economi a iechyd cyhoeddus.

Fe wnawn hybu gweledigaeth benodol o ran ynni a'r amgylchedd fyddai'n gweld Cymru yn lleihau ei hallyriadau carbon, yn harneisio ei hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, ac yn manteisio ar gyfleoedd mewn economïau carbon isel a chylchol.

Blaenoriaethau Allweddol: Ynni

1. *Ceisio gwaharddiad llwyr ar ffracio a gweithfeydd glo brig newydd.*

2. *Mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon trwy gychwyn ar y rhaglen effeithiolrwydd ynni mewn cartrefi fwyaf a welodd Cymru erioed.*

3. *Cynhyrchu cymaint o drydan ag sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru o ffynonellau adnewyddol erbyn 2035.*

4. *Sefydlu cwmni ynni cenedlaethol, Ynni Cymru, gaiff ei redeg fel cwmni nid-am-ddifidend ar hyd braich o Lywodraeth Cymru, gan fuddsoddi'r elw mewn gwell gwasanaeth i gleientiaid a phrisiau is.*

5. *Creu rhwydwaith o gridiau ynni lleol.*

Nodau eraill: Ynni

- Comisiynu astudiaeth o'r farchnad i chwilio am gyfleoedd i wneud y mwyaf o gyfran y dechnoleg cynhyrchu a wneir yng Nghymru.
- Cynyddu cefnogaeth i'r egwyddor y dylai'r cyfrifoldeb am holl adnoddau naturiol Cymru orwedd gyda phobl Cymru trwy eu Cynulliad Cenedlaethol.
- Cynhyrchu Rhestr Eiddo Cenedlaethol o botensial ynni gwyrdd- "Atlas Ynni i Gymru".
- Rhoi ystyriaeth berthnasol i fanteision cymdeithasol ac economaidd cynlluniau Ynni Cymunedol yn y broses gynllunio.
- Yn gysylltiedig â'r nod uchod, diwygio deddfwriaeth gynllunio ar ddefnydd tir i roi llwybr cyflym i gynlluniau ynni adnewyddol cymunedol.
- Adeiladu ar ein polisi effeithiolrwydd ynni mewn tai trwy weithredu polisïau cadarnhaol o blaid ynni solar ar gyfer pob adeilad cyhoeddus addas.
- Creu Fforwm Llifogydd Genedlaethol Gymreig.
- Goflau bod cymalau amgylcheddol yn rhan o bolisi caffael sector cyhoeddus Cymru.
- Datblygu prosiect trydan dŵr i'r Afon Wysg, yn amodol ar asesiad effaith amgylcheddol llawn.

Blaenoriaethau Allweddol: Amgylchedd

1. *Llwyddo i gael Cymru Gwastraff Sero erbyn 2030 trwy gamau ar sefydliadau bwyd, gwahardd pecynnu Styrofoam, rhagdybiaethau o blaid ailgylchu mewn polisi caffael a rheol ailgylchu 100% o wastraff mewn digwyddiadau cyhoeddus mawr, cynlluniau blaendal am blastig, gwydr a chaniau, a mesurau eraill cysylltiedig, trwy ddeddfu os bydd angen.*

2. *Sicrhau bod targedau newid hinsawdd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ddigonol – pwyso ar Lywodraeth Cymru i roi adroddiadau blynyddol ar dargedau newid hinsawdd.*

3. *Datblygu agwedd fwy ataliol at lifogydd. Rhoi mwy o bwyslais ar atal llifogydd mewn canllawiau cynllunio a buddsoddi mwy mewn gwaith ataliol gan ddefnyddio agwedd ecosystemau.*

4. *Cymryd camau i wella bioamrywiaeth trwy'r ffyrdd canlynol: cyfoesi a chydgyfnerthu deddfwriaeth bywyd gwyllt yng Nghymru gan greu Deddf Bywyd Gwyllt newydd i Gymru; creu mwy o barthau gwarchod morol; annog mwy i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol; a sicrhau mai prif ddiben Cyfoeth Naturiol Cymru yw bod yn hyrwyddwr amgylcheddol i Gymru.*

5. *Ail-ddatgan ein cefnogaeth i Gymru rydd o GM, a cheisio sicrwydd gan Lywodraeth y DG ar risgiau posib halogi trawsffiniol os byddant yn bwrw ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer cnydau GM yn Lloegr.*

Nodau eraill: Amgylchedd

- Cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar Dirweddau'r Dyfodol, yn ein Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- Gwneud Cymru yn genedl awyr dywyll a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- Cyflwyno gwaharddiad cenedlaethol ar ryddhau llusernau awyr.
- Cefnogi cyflwyno Mentrau Afonydd i ddatblygu cynlluniau penodol i afonydd er mwyn cynyddu poblogaethau pysgod, gan dalu sylw arbennig i boblogaethau sewin ac eogiaid.
- Gwrthwynebu'r defnydd o beilonau trwy Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan fod o blaid ceblau tanddaear a thanfor i gludo trydan lle mae modd gwneud hyn.
- Cefnogi Cynllun Gweithredu Rhywogaethau mewn Perygl i Gymru.
- Hybu cyfleoedd newydd am hamdden yn ein coedwigoedd.

Prosiectau Cyfalaf

- Gall prosiectau cyfalaf cysylltiedig â'n blaenoriaethau ynni ymddangos, yn dibynnu ar lefel ymwneud y sector preifat â gridiau ynni lleol, ac yn dibynnu ar gwmpas y prosiectau a gyflwynir gan Ynni Cymru.
- Gwaith cyfalaf posib yng nghyswllt creu coetir newydd.
- Cynyddu buddsoddiad cyffredinol mewn atal llifogydd.
- Prosiect trydan dŵr Afon Wysg.

AMAETHYDDIAETH

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Amaethyddiaeth

Bydd Plaid Cymru yn hyrwyddo ffermio yng Nghymru a'r diwydiannau traddodiadol sy'n seiliedig ar ein hadnoddau naturiol. Dylid synied am amaethyddiaeth fel sector economaidd allweddol, fel diwydiant o bwys diwylliannol ac ieithyddol, ac fel ffordd o fyw.

Mae ffermio ac amaethyddiaeth ar frig ein gweledigaeth o Gymru fel man cydnabyddedig ledled y byd am ansawdd ei bwyd a'i diod.

Byddwn yn gweithio i osod amaethyddiaeth Cymru mewn safle all oroesi unrhyw her mae Cymru'n wynebu o adael yr Undeb Ewropeaidd, fel y gall ffynnu yn y dyfodol. Ni ddylai busnesau fferm wynebu unrhyw dariffau ychwanegol na rhwystrau i allforio eu cynhyrchion i'r UE yn y dyfodol.

Blaenoriaethau Allweddol

1. *Sicrhau bod y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cefnogi ffermwyr, er mwyn annog gwir newid ar lefel ffermydd.*

2. *Cymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r diciâu gwartheg mewn bywyd gwyllt trwy ymrwymo i ddefnyddio'r ffordd fwyaf effeithiol i reoli a dileu'r diciâu mewn gwartheg a gofalu bod profion a chyfyngiadau symud yn gymesur â statws clefyd unrhyw ardal.*

3. *Dileu'r rheol aros chwe diwrnod sy'n rhwystro busnesau ffermydd ar yr union adeg y mae arnom angen mwy o hyblygrwydd.*

4. *Cynyddu swm y bwyd o Gymru a brynir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru a phwyso am ddiwygio rheolau'r Lefi Cig Coch er mwyn gofalu bod y lefi a godir ar dda byw o Gymru yn mynd tuag at hybu cynnyrch Cymreig. Mae'r rheoliadau presennol yn golygu fod Hybu Cig Cymru yn colli'r £1 miliwn y flwyddyn sy'n hanfodol i fentro i farchnadoedd newydd.*

5. *Cyflwyno strategaeth i arbed ffermydd cyngor rhag cael eu gwerthu, dan raglen ehangach i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.*

Nodau eraill

- Penodi hyrwyddwr y diwydiant i hybu ffermio Cymreig ymhlith siopau a phroseswyr mawr.

- Datblygu Menter Harbyrau Bach i wneud y sector pysgodfeydd yn fwy hyfyw yn y tymor hir.

- Creu Senedd Wledig Gymreig.

- Cefnogi mentrau i hyrwyddo ansawdd a rhagoriaeth bwyd a diod o Gymru, gan gynnwys ymgyrch benodol flwyddyn o hyd wedi'i hanelu at ddefnyddwyr.

- Annog cynhyrchu mwy o fwyd yn lleol, gan gynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

TREFTADAETH, DIWYLLIANT A CHWARAEON

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer Treftadaeth, Diwylliant a Chwaraeon

Ar adeg pan fo'n gwerthoedd Ewropeaidd wedi eu herio a'u cwestiynau, mae'n bwysicach nac erioed dyrchafu diwylliant cenedlaethol Cymru, a'r amrywiaeth sydd ynddo, i'w statws uchaf oll.

Mae ein Rhaglen yn rhoi gwerth ar ein hetifeddiaeth ddiwylliannol gyfoethog a'n potensial creadigol. Mae treftadaeth, diwylliant a chwaraeon yn sylfaen i'n bywydau bob dydd yn ogystal â hanes y genedl.

Bydd Plaid Cymru yn dathlu diwylliant Cymru ac yn ei ddefnyddio fel modd o hybu ein heconomi, ein hiechyd a'n lles.

Blaenoriaethau Allweddol

1. *Sicrhau datganoli darlledu i Gymru, yn enwedig y cyfrifoldeb dros S4C i gael ei ddatganoli i Gymru, gyda chytuno ar isafswm yn y Grant Bloc Cymreig. Mae'r adolygiad o S4C sydd ar y gweill ar gyfer 2017 yn gyfle i bwyso am hyn.*
2. *Datblygu bid wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru am Gemau'r Gymanwlad gyda Chymru yn eu llwyfannu.*
3. *Sefydlu amgueddfa bêl-droed Cymru yn Wrecsam, lle sefydlwyd Cymdeithas Pêl-droed Cymru, i arddangos datblygiad pêl-droed yng Nghymru.*
4. *Datblygu dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu cymryd rhan a chael profiad o'r celfyddydau i blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd.*
5. *Creu Comisiwn Cyfryngau Annibynnol i Gymru i dalu am rwydwaith newyddion digidol sy'n cael ei syndicaleiddio, yn yr iaith Saesneg.*

Nodau eraill

- Ceisio cyfran ychwanegol o 1% o leiaf o arian loteri y DG a neilltuir i'r celfyddydau i gydnabod anghenion ychwanegol sy'n codi o'r lefel uchel o dlodi ac amddifadedd cymdeithasol yng Nghymru.
- Sicrhau fod pob adran o lywodraeth genedlaethol a lleol yn cyfrannu at fynd i'r afael â throseddau casineb, camwahaniaethu a thrais, gan gynnwys hiliaeth a homoffobia.
- Sefydlu Oriel Gelf Genedlaethol ac oriel ryngwladol o gelf gyfoes.
- Pwyso ar i ddarlledwyr cyhoeddus roi canran uwch o amser a chyllid darlledu i chwaraeon menywod.
- Galw ar i Lywodraeth Cymru wneud bid i ddod â'r Tour de France i Gymru, i ddynion a menywod.
- Dilyn esiampl Partneriaethau Chwaraeon Lleol yng Ngweriniaeth Iwerddon er mwyn datblygu agwedd ranbarthol at ddarparu chwaraeon.
- Cefnogi cynigion am dîm criced undydd rhyngwladol i Gymru.
- Galw ar gyrff llywodraethu chwaraeon a mudiadau chwaraeon mawr i ddatblygu cyrsiau hyfforddi priodol a gwybodaeth farchnata yn Gymraeg a Saesneg.
- Creu prentisiaethau mewn mudiadau celfyddydol
- Cefnogi buddsoddi mewn mentrau cynhenid llwyddiannus megis Only Boys Aloud.
- Creu 'sistema' Cymreig gan ddefnyddio cerddoriaeth, y celfyddydau a theatr i oresgyn anfanteision er mwyn helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial.

- Galw am gadw gwasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru, gan adeiladu ar argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru.
- Parhau i gyllido ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol allweddol
- Pwyso ar i Gymru ddod y genedl gyntaf i ddeddfu am greu llyfrgell genedlaethol ddigidol.

Prosiectau Cyfalaf

- Gweithiau cyfalaf yng nghyswllt yr Oriel Gelf Genedlaethol, yr Amgueddfa Bêl-droed ac o bosib brosiectau eraill.
- Yn dibynnu ar hynt unrhyw fid am Gemau'r Gymanwlad, byddem angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol dros y rhan fwyaf o'r ddegawd nesaf.

YR IAITH GYMRAEG

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Cred Plaid Cymru mewn cenedl wirioneddol ddwyieithog lle gall y dinasyddion ddewis pa iaith i'w defnyddio yn eu bywydau bob dydd.

Buasem yn ailwampio'r modd mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgolion, a sut y'i defnyddir yn yr economi ac mewn llywodraeth genedlaethol a lleol.

Fe gymerwn bob cyfle fel rhan o'n Rhaglen i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, a sicrhau yr erys ein hiaith wrth galon popeth a wnawn fel cenedl.

Blaenoriaethau Allweddol

1 *Gweithio gyda darparwyr gofal plant, fel y Mudiad Meithrin, i sicrhau bod digon o ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ym mhob rhan o Gymru.*

2. *Dyblu cyllideb Cymraeg i Oedolion er mwyn rhoi hyfforddiant iaith i athrawon a gweithwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus; helpu rhieni sydd eisiau gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cartref; a hybu'r iaith ymysg trigolion newydd i Gymru.*
3. *Ehangu dysgu a darparu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen fel y gall mwy o ddisgyblion siarad Cymraeg i safon derbyniol erbyn eu bod yn saith oed.*
4. *Cryfhau'r safonau a ddisgwylir gan y sector cyhoeddus a chyrff mawr yn y sector preifat wrth ymdrin â'r cyhoedd, gan gynnwys yn y sector bancio ac archfarchnadoedd, a chyrff y tu allan i Gymru sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru.*
5. *Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gweinyddiaeth mewn llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus yn ehangach.*

Nodau eraill

- Datblygu canolfannau economaidd mewn ardaloedd lle mae siaradwyr Cymraeg yn y mwyafrif: Caerfyrddin, Aberystwyth ac ar hyd Glannau'r Fenai.
- Cymryd camau i ddiogelu enwau llefydd cynhenid Cymraeg.

- Parhau i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a galw am fodel cyffelyb i addysg bellach.
- Galw am sefydlu Rhaglen Hyfforddi Gweithlu fydd yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg strwythuredig a chyrsiau trochi, gan gynnwys cefnogaeth ariannol i ryddhau gweithwyr i ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau iaith.
- Annog busnesau bach a chanolig ledled Cymru i ddatblygu llefydd ar brentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Galw am i entrepreneuriaid a busnesau sy'n gweithredu yn y Gymraeg i gael mwy o gefnogaeth i ddatblygu eu model busnes dwyieithog.
- Galw am gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn gofal iechyd yng Nghymru fel bod gan gleifion Cymraeg eu hiaith yr hawl i gael gwasanaeth yn Gymraeg yn yr holl GIG.
- Galw am rwydwaith o ganolfannau iaith Gymraeg ym mhob rhan o Gymru.

Prosiectau Cyfalaf

- Rhwydwaith o ganolfannau iaith Gymraeg ym mhob rhan o Gymru.

YR UNDEB EWROPEAIDD A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer yr UE a Chysylltiadau Rhyngwladol

Bydd Plaid Cymru yn pwyso am gadw a gwella cysylltiadau Cymru â'r Undeb Ewropeaidd gymaint ag sydd modd yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE.

Yn awr yn fwy nag erioed, rhaid gwireddu gweledigaeth Plaid Cymru o "Gymru Ryngwladol".

Mabwysiadodd Plaid Cymru gynnig polisi eang yn dilyn trafodaeth ddemocrataidd yn y blaid, ac fe fydd yn ymgymryd â rhaglen waith.

Mae ein blaenoriaethau am ddyfodol perthynas Cymru â'r UE yn cynnwys camau i'r llywodraeth, ond bydd cysylltiad agos hefyd â safbwyntiau trafod Cymru a'r DG dros Brexit.

Rhaid i unrhyw newid yng nghyfansoddiad y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys ei diwedd o ganlyniad i annibyniaeth i'r Alban, alluogi Cymru i benderfynu ar ei dyfodol ei hun heb unrhyw gyfyngiadau na rhwystr.

Blaenoriaethau Allweddol

1. *Sicrhau aelodaeth o'r EEA ac EFTA neu'r dewis gorau i Gymru wedi tynnu allan o'r UE.*
2. *Cynnal Confensiwn Cenedlaethol i drafod pob dewis posib i Gymru mewn ymateb i ddiwedd y Deyrnas Gyfunol; a chefnogi Cymru annibynnol yn yr UE fel rhan o'r drafodaeth honno.*
3. *Datblygu a chyhoeddi Cynllun Lliniaru Cenedlaethol i leihau unrhyw ddifrod economaidd a chymdeithasol i Gymru o ganlyniad i Brexit.*
4. *Pwyso am i delerau terfynol Brexit gael eu cadarnhau gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y modd mwyaf priodol y tybia sy'n addas.*
5. *Sicrhau fod pob penderfyniad a wneir am ddyfodol Cymru yn cael eu gwneud yng Nghymru gan y cyhoedd neu eu cynrychiolwyr etholedig.*